

Cyflawni Cyfiawnder

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

CYNLLUN CORFFORAETHOL

2019/20 – 2021/22

Cynnwys

Tudalen

Rhagair

02

Cynnydd: Adolygiad o 2016/17 – 2018/19

04

Ein Gweledigaeth a Chenhadaeth

06

Ein Nodau Strategol

06

Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol

16

Rhagair



Bydd fy nghyfnod saith-mlynedd yn y swydd yn dod i ben yn 2021, felly bydd y cynllun hwn, sy'n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y swyddfa am y tair blynedd nesaf, yn fy un olaf fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Gallaf ddweud heb air o gelwydd fod y pedair blynedd ddiweddaraf, er gwaethaf eu heriau, wedi bod yn ffrainc enfawr wrth wasanaethu pobl Cymru. Dros gyfnod ein Cynllun Corfforaethol blaenorol – 2016/17 - 2018/19, roedd pwysau dwys ar y swyddfa, gyda chynnydd o 5% mewn cwynion yn ymwneud â chod ymddygiad cynghorwyr, chynnydd o 15% mewn cwynion am wasanaethau cyhoeddus a chynnydd o 26% mewn ymholiadau!¹

Mae cwynion iechyd, fel arfer y rhai mwyaf drud, sensitif, cymhleth a gofidus o'r holl gwynion i'w trin a'u hymchwilio wedi cynyddu i 40% o'n holl gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rwyf wedi bod yn awyddus i wrando'n weithredol ar ein rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth a chyrrff cyhoeddus mewn fy awdurdodaeth - ac i'm staff sy'n parhau i ymgymryd â'u gorchwyl, yn frwdfrydig a phroffesiynol am gyfiawnder, er gwaethaf pwysau cynyddol ac yn aml, beichiau gwaith anodd iawn.

Yn ystod oes y cynllun Corfforaethol hwn, rwy'n rhagweld y bydd deddfwriaeth newydd yn ehangu hygyrchedd ein gwasanaethau a gwella ein gallu'n

¹ Amcangyfrif data 2018/2019 yn seiledig ar ffigyrau 7 mis

fawr i fod yn rhagweithiol ac i edrych ar fethiannau gwasanaeth systematig, yn ogystal ag unigol. Bydd hefyd yn darparu cwmpas gwell i wella diwylliannau ymdrin â chwynion ar draws y sector preifat.

Dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol hwn, bydd y swyddfa yn croesawu newidiadau a chymryd dysg gan y cynlluniau gorau yn y byd, er mwyn rhoi gwasanaeth gwell fyth i bobl Cymru.

Fel y dywedodd Bendigeidfran yn y Mabinogi: “A fo ben, bid bont”. Rwy’n gobeithio y bydd y cynllun hwn yn gweithredu fel pont effeithiol yn y dyfodol.

Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cynnydd: Adolygiad o 2016/17-18/19

Arweiniodd ein Cynllun Corfforaethol diwethaf *Arloesi, Dylanwadu a Gwelliant* at sawl llwyddiant a chynydd sylweddol, er gwaethaf pwysau cynyddol ar y swyddfa.

Arloesi

Mae ein Prawf Lles y Cyhoedd newydd ar gyfer cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad wedi ein cynorthwyo'n fawr i osgoi cwynion blinderus ac i ganolbwyntio ar faterion sy'n allweddol er lles y cyhoedd.

Mae gweithgareddau sicrwydd ansawdd wedi cynyddu a drwy gyflwyno Seinfyrddau newydd ar gyfer grwpiau iechyd, llywodraeth leol a chynrychioliadol, rydym wedi darparu "man diogel" i'r swyddfa dderbyn adborth gonest ac ansoddol am yr hyn a wnawn a sut y gallwn wella.

Rydym wedi datblygu Swyddogaeth Wella, gydag uwch swyddogion ymchwilio penodol sy'n gweithio â chyrrff cyhoeddus penodol i wella eu prosesau a diwylliannau ymdrin â chwynion.

Drwy adolygu ein targedau, o safbwynt achwynwr, rydym wedi'u gwneud yn anoddach i'w cyflawni, ond yn fwy agored a thryloyw.

Rydym wedi rhoi pwysau cynyddol ar gydymffurfiaid i sicrhau nad yw methiannau gwasanaeth yn cael eu hail-adrodd a bod argymhellion yn cael eu gweithredu.

Yn ystod y cyfnod hwn, defnyddiwyd datrysiad cynnar yn fwyfwy i ddarparu cyfiawnder i achwynwyr ac mae'r swyddfa wedi cyhoeddi dau adroddiad arbennig Adran 22 lle mae cyrrff cyhoeddus wedi methu ag anrhydeddu ymrwymadau a wnaethant i achwynwyr.

Gwelliant

Cyhoeddwyd tri adroddiad thematig, un ar wasanaethau Allan o Oriau, un ar Ryddhau o'r Ysbyty ac un a enwir "Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol", yn ymwneud â diwylliant cwynion gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn arbennig o bleserus gweld yr adroddiad Allan o Oriau yn hysbysu'r gweithgaredd gwella byrddau iechyd ledled Cymru.

Mae gallu ein data wedi'i gryfhau, gyda dadansoddiad nawr yn darparu mewnwelediad manwl i ni i mewn i dueddiadau a themâu, yn ogystal â llunio ein hymgysylltiad â chyrrff perthnasol.

Rydym wedi adolygu a gwella cyflwyniad ein Coflyfr ac wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein systemau TG, gan gryfhau ein trefniadau cymorth TG mewnol a chomisiynu gwefan sydd wedi gwella'n sylweddol.

Mae annibyniaeth ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a Phanel Ymgynghorol wedi cael ei atgyfnerthu a chynhaliwyd ansawdd uchel o aelodaeth. Rwy'n falch o adrodd ein bod hefyd wedi cynnal cyfrifon anghymwys trwy gydol y cyfnod cynllunio corfforaethol.

Rydym wedi cynnal dau arolwg staff yn ystod y cyfnod cynllunio corfforaethol a oedd yn dangos cynnydd sylweddol mewn ysbryd er gwaethaf pwysau gwaith cynyddol - mae 93% o staff OGCC yn falch o weithio yma. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i fewnosod gwerthoedd staff.

Dylanwadu

Mae'r swyddfa wedi cydweithio'n rhagweithiol yn y cartref a thramor. Rydym wedi arwain y gwaith ar gaffaeliad Archwilio Mewnol ar y cyd gyda Chomisiynwyr yng Nghymru ac rydym yn darparu gwasanaethau cyflogres i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Cadeiriodd yr OGCC yr Ombudsman Association (sy'n cynnwys y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Tiriogaethau dibynnol y Goron a Thiriogaethau Tramor Prydain), gyda Chyfarwyddwyr OGCC yn cadeirio AD a Grwpiau Diddordeb Cyfreithiol. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnodd yr Ombudsman Association statws Corfforaethol Cyfreithiol. Etholwyd OGCC hefyd i Fyrddau Ewropeaidd a Byd yr International Ombudsman Institute. Ym mis Hydref 2016, cynhaliom seminar ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn cynnwys Cadeirydd Ewropeaidd y Sefydliad Ombwdsmon Rhyngwladol ac yr Ombwdsmon Catalanaidd, Rafael Ribó.

Mae'r swyddfa bob amser wedi ceisio dylanwadu ar welliant gwasanaethau cyhoeddus drwy ei waith ac yn benodol trwy gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd. Yn ystod cyfnod y cynllunio corfforaethol, cafodd cynnydd sylweddol ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth gyflwyno deddfwriaeth newydd a fydd yn rhoi offer pellach i'r swyddfa i sicrhau cyfiawnder ac i atal methiant gwasanaeth. Cyflwynwyd y Bill OGCC newydd ym mis Hydref 2018 gyda phleidleisiau ysgubol yn y Cynulliad Cenedlaethol o blaid yr egwyddorion cyffredinol a'r datrysiad ariannol. Gyda Chydsyniad Brenhinol wedi'i ragweld ym mis Ebrill 2019, mae hyn yn addo i fod yn bennod newydd cyffrous a fydd yn sail i'r cynllun Corfforaethol hwn.

Ein Gweledigaeth a Chenhadaeth

Ein Gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

Gwasanaethau sy'n gwrando'n weithredol ac sy'n dysgu o gwynion.

Ein Cenhadaeth

I gadarnhau cyfiawnder a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Ein Nodau Strategol

Nod Strategol 1: Cyflawni Cyfiawnder

Gwasanaeth cwynion sy'n deg, annibynnol, cynhwysol ac ymatebol.

Nod Strategol 2: Hyrwyddo Dysgu, Gweithio i Wella Gwasanaethau Cyhoeddus

Hyrwyddo dysgu o gwynion ac ysgogi gwelliannau ar raddfa ehangach.

Nod Strategol 3: Defnyddio Adnoddau yn Ddoeth a Diogelu'r Sefydliad Rhag y Dyfodol

Adnabod a mabwysiadu arfer gorau. Sicrhau gwerth am arian a gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Cefnogi staff a sicrhau llywodraeth dda sy'n ein cefnogi a herio.

Nod Strategol 1: Cyflawni Cyfiawnder

Gwasanaeth cwynion teg, annibynnol, cynhwysol ac ymatebol.

Ein blaenoriaethau yw:

- **Parhau i ddarparu gwasanaeth cwynion amserol ac o ansawdd uchel.**

Byddwn yn:

- Unioni anghyfiawnder drwy setliadau ac ymchwiliadau teg a diduedd.
- Parhau i ddefnyddio ein hadnoddau yn ddoeth wrth ystyried cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad drwy gymwysu ein prawf Lles y Cyhoedd.
- Ymgymryd â gwaith sicrwydd ansawdd rheolaidd - gan edrych ar ansawdd y gwaith a chysondeb penderfyniadau.
- Cynnal y nifer a datblygu sgiliau ein staff ymchwilio.
- Ymchwilio i gwynion mewn modd cyfatebol ac amserol.
- Darparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Mabwysiadu'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol ar amseroedd penderfynu ac achosion sydd wedi'u cau, a chyhoeddi targedau a pherfformiad yn flynyddol:

DPA 1: Cwynion am gamweinyddu/methiant gwasanaeth – Amseroedd Penderfynu

Penderfyniad nad yw cwyn o fewn awdurdodaeth < 3 wythnos

Pan fyddwn yn ceisio Datrysiaid Cynnar, penderfyniad cyn pen 9 wythnos

Penderfyniad i ymchwilio cyn pen 6 wythnos ar ôl Dyddiad y Derbyniwyd Digon o Wybodaeth (DSIR)

Penderfyniad wedi'i wneud i beidio ag ymchwilio i'r gŵyn (ar ôl gwneud ymholiadau cychwynnol) < 6 wythnos

DPA 2: Cwynion am gamweinyddu/methiant gwasanaeth sy'n cael eu hymchwilio - Achosion sydd wedi'u Cau

Cyn pen 12 mis

DPA 3: Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad – Amseroedd Penderfynu

Penderfyniad wedi'i wneud ynghylch a fyddwn yn cychwyn ymchwiliad cyn pen 6 mis

DPA 4: Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad sy'n cael eu hymchwilio – Achosion sydd wedi'u Cau

Cyn pen 12 mis.

- **Codi ymwybyddiaeth o wasanaeth yr OGCC a chael gwared ag unrhyw rwystrau hysbys i fynediad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**

Byddwn yn:

- Ymgymrydâ rhaglen flynyddol o weithgaredd gwaith allanol.
- Archwilio sylw'r cyfryngau am ein sefydliad ar sail flynyddol.
- Cipio a chyhoeddi data cydraddoldeb gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth ac addasu ein gweithgaredd gwaith allanol yn unol â hynny.
- Derbynn cwynion llafar, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth newydd, o 2019 ymlaen.
- Ystyried grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol nad ydynt efallai yn cyflwyno cwynion wrth bennu'r defnydd o bwerau ar fy liwt fy hun o ymchwiliad.
- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.²

- **Ceisio adborth gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth a'r rhai sy'n eu cynrychioli**

Byddwn yn:

- Llywyddu cyfarfodydd seinfwrdd, o leiaf bob blwyddyn, i ddarparu "man diogel" i dderbyn adborth a deallusrwydd gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

² Fel yr amlinellir ar dudalen 16

- Casglu a dadansoddi adborth boddhad cwsmeriaid (gan achwynwyr a darparwyr gwasanaeth) ar ein gwasanaetha a chyhoeddi targedau a pherfformiad ar sail flynyddol.
- Gweithio â chomisiynwyr fel y bo'n briodol i geisio adborth ar faterion gwasanaeth cyhoeddus.

DPA 5: Boddhad Cwsmer

Hawdd i ganfod OGCC

Y gwasanaeth a dderbyniwyd yn gynorthwyol

Esboniad clir o'r broses ar penderfyniad.

• Sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'n hargymhellion

Byddwn yn:

- Sicrhau cydymffurfiad cyrff cyhoeddus â'n hargymhellion.
- Pan fyddwn wedi cyhoeddi adroddiad diddordeb cyhoeddus, byddwn yn ystyried ymgymryd ag ymweliadau cydymffurfio i fonitro cydymffurfiad.

DPA 6: Cydymffurfiad

Canran yr argymhellion a wnaed sydd wedi cael eu cydymffurfio gan ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus

Nifer yr ymweliadau cydymffurfio.

Nod Strategol 2: Hyrwyddo Dysgu, Gweithio i Wella Gwasanaethau Cyhoeddus

Hyrwyddo dysgu o gwynion ac ysgogi gwelliannau ar raddfa ehangach.

Ein blaenoriaethau yw:

- **Defnyddio'r pwerau rhagweithiol yn effeithiol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd**

Byddwn yn:

- Sefydlu rôl Safonau Cwynion ac ymgymryd ag ymchwiliadau ar Fy Liwt Fy Hun o 2019 ymlaen.

- **Adolygu ein swyddogaeth gwella a datblygu cefnogaeth dysgu bellach**

Byddwn yn:

- Datblygu swyddogaeth gwella a dysgu newydd drwy sefydlu rôl Safonau Cwynion yn 2019.

- **Adolygu a gwella ein Coflyfr**

Byddwn yn:

- Lansio adran Coflyfr diwygiedig ac amgen ar wefan OGCC a chael adborth.

- **Ymateb i Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymgynghoriadau eraill sy'n darparu mewnwelediad ac ychwanegu gwerth i ddadl**

Byddwn yn:

- Ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus lle mae tystiolaeth o'n gwaith achos yn berthnasol.

- **Cydweithio â chyrff a Chomisiynwyr eraill**

Byddwn yn:

- Ymgynghori â Chomisiynwyr a chyrff perthnasol eraill ar unrhyw Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun arfaethedig.

Rhannu data ac adroddiadau â rheolyddion a Chomisiynwyr.

- **Parhau i wella cipio a dadansoddi data a'i wneud yn hygyrch i'r cyhoedd**

Byddwn yn:

- Gwella dyfnder y manylion sydd ar gael, galluogi tueddiadau a themâu i'w cael eu hadnabod a'u defnyddio mewn ystod o gyfathrebiadau, gan gynnwys llythyrau blynyddol i ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus.

- **Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol i fesur llwyddiant ein gwaith er mwyn hyrwyddo dysgu a gwella gwasanaethau cyhoeddus**

Nod Strategol 3: Defnyddio adnoddau yn ddoeth a diogelu'r sefydliad rhag y dyfodol

Adnabod a mabwysiadu arfer gorau. Sicrhau gwerth am arian a gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Cefnogi staff a sicrhau llywodraeth dda sy'n ein cefnogi a herio.

Ein blaenoriaeth yw:

- **Addasu arfer gorau rhyngwladol, i wasanaethu Cymru yn y ffordd orau posibl**

Byddwn yn:

- Sicrhau bod deddfwriaeth newydd ar gyfer Fy Liwt Fy Hun a Safonau Cwynion yn cael ei weithredu'n effeithiol yn 2019.
 - Asesu ein perfformiad yn rheolaidd drwy adolygiad gan gydweithwyr a meincnodi perthnasol.
 - Cymryd rhan yn weithredol yn yr International Ombudsman Institute, the Ombudsman Association a Grŵp Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y DU.
 - Cryfhau ein presenoldeb yng Ngogledd Cymru.
- **Bod yn gyflogwr ardderchog, buddsoddi yn ein staff a sicrhau bod ganddynt raglen berfformio, datblygu a hyfforddi dynamig a chefnogol ar waith**

Byddwn yn

- Sicrhau bod Adolygiadau Perfformiad Blynyddol a Rhaglen Datblygu ar waith.

DPA 7: Adnoddau Dynol

Cwblhau adolygiadau PRDP

Ymateb gweithwyr i arolwg staff

- Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff i sicrhau bod canlyniadau hyfforddi yn cael eu cyflawni

DPA 8: Hyfforddiant Staff

Canran y staff sy'n cyflawni'r nifer targed o ddyddiau o ddatblygiad proffesiynol parhaus

- Monitro presenoldeb a salwch staff

DPA 9: Presenoldeb staff

Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd trwy salwch fesul aelod o staff

% y dyddiau gweithio a gollwyd trwy salwch staff

Yn ystod hyd y Cynllun Corfforaethol hwn, cynnal o leiaf un arolwg staff ychwanegol i fonitro ein datblygiad staff ac ystyried adborth.

• Gwario arian cyhoeddus yn ddoeth

Byddwn yn:

- Rheoli ein hadnoddau yn ddoeth, gyda rheolyddion mewnol cadarn, gan sicrhau gwerth am arian a bod darpariaeth gyllidol ar gyfer staff gwaith achos yn cael ei flaenoriaethu.

DPA 10: Cyllidol

Arian sydd wedi cael ei ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru

Cost uned fesul achos

Costau Cefnogaeth fel canran o'r gyllideb

Barn Archwiliad Allanol ar Gyfrifon

Barn Archwiliad Mewnol ar reolyddion mewnol

* Mae Atodiad A yn dangos niferoedd cwynion rhagamcanol a chyllidebau dangosol y dyfodol

- **Diogelu data a sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i ddiogelu rhag bygythiadau diogelwch seibr**

Byddwn yn:

- Gweithredu Cynllun ITC 10-mlynedd OGCC³
- Mesur ein cydymffurfiad gyda Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) drwy fonitro ac adolygu mewnol, a thrwy unrhyw gwynion wedi'u cadarnhau gan ICO.
- Cynnal buddsoddiad ITC dros gyfnod cynllun 10-mlynedd sy'n sicrhau cynllunio strategol effeithiol ac integreiddio'r defnydd o dechnoleg, gan ddarparu cefnogaeth ar gyfer sain/ gweledol, cyfrifiadur, amlgyfrwng, llais, fideo a rhaglenni a gwasanaethau sy'n seiliedig ar y we.
- Cynnal ac adolygu ein cofrestr risg yn llym.

- **Bod yn atebol, gan sicrhau ein bod yn adlewyrchu, dysgu a diogelu annibyniaeth yr Ombwdsmon**

Byddwn yn:

- Cynnal cyfarfodydd chwarterol y Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr OGCC i herio a chynghori'r Ombwdsmon.
- Darparu amcangyfrif blynyddol o'n hanghenion cyllidol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.
- Adrodd ar ein perfformiad i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol fel sy'n ofynnol.
- Amddiffyn annibyniaeth rôl yr Ombwdsmon yn ffyrnig.
- Parhau i gyflogi Adolygydd Annibynnol o gwynion am ein gwasanaeth, i sicrhau bod y penderfyniadau yr ydym wedi'u cyrraedd, yn dilyn cwynion am ein gwasanaeth, yn deg ac addas.

³ Mae gan yr OGCC gynllun ITC 10-mlynedd. Mae trwyddedau a chyfnewidiadau cyfrifiaduron yn cael eu rheoli lle bo modd cynnal gwariant blynyddol cyson. Mae prif galedwedd ITC wedi'i raglennu ar gyfer amnewidiad yn unol â bywyd disgwylidiedig yr offer, a bydd yn arwain at amrywiadau mewn gwariant yn y blynyddoedd i ddod (yn gyffredinol y tu hwnt i raddfeydd amser y Cynllun Corfforaethol hwn).

DPA 11: Cwynion Amdanom Ni

Nifer y cwynion a dderbyniwyd

Nifer y cwynion wedi'u cadarnhau

Cydraddoldeb

Mae ymroddiad i drin pobl yn deg yn ganolog i rôl Ombwdsmon. Rydym yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth sy'n hawdd i bawb ei ddefnyddio ac i ddarparu cyfleoedd cyfartal i'r holl staff.

Rydym yn cymryd ein dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb yng Nghymru o ddifrif, ill dau fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus ac fel cyflogwr.

Rydym yn disgwyl i'n holl staff rannu ein gwrthwynebiad i wahaniaethu anghyfreithlon ac anheg ac i gynnal busnes mewn modd sy'n deg i bob aelod o'r gymdeithas.

Byddwn yn:

- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn dilyn ymgynghoriad â'n Defnyddwyr Gwasanaeth Seinfwrdd a grwpiau eraill sy'n cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchoddedig a'n Panel Ymgynghorol o aelodau annibynnol.
- Parhau i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ystyried eu dyletswyddau yn gywir o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol pan fyddwn yn cyflawni cyfiawnder i unigolion.
- Gweithio i sicrhau bod ein recriwtio a gweithgareddau datblygu staff yn darparu gweithlu amrywiol a chytbwys.

Iaith Gymraeg

Rydym yn cefnogi'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn llwyr, hynny yw, y dylid trin yr iaith Gymraeg ar Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cefnogi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Cynhyrchwyd ac adolygwyd ein polisi iaith Gymraeg gyda golwg ar Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015 yn y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau, delio â'r cyhoedd a recriwtio staff. Bydd yr Ombwdsmon yn croesawu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd.

Cenedlaethau'r Dyfodol


Er nad yw'r OGCC yn destun i ddyletswyddau llawn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ein nod yw ymgorffori'r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes, ac i fwyhau ein cyfraniad at gyflawni'r saith Nod Llesiant Cymru.

Bydd deddfwriaeth gerllaw yn diogelu fy swyddfa rhag y dyfodol, fel ei fod mewn safle cryfach i ymdrin â heriau'r gymdeithas sy'n heneiddio, i wella a chynnal cyfiawnder cymdeithasol a chynorthwyo'r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Rydym yn cydnabod effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd ac yn gweithio i leihau defnydd a chynhyrchu gwastraff. Rydym yn monitro'r DPA canlynol:

DPA 12: Cynaliadwyedd
Gwastraff
Trydan

Atodiad A

Baich Achosion Cwynion Rhagamcanol a Chyllideb Ddangosol



Nodiadau

Dangosir pob cyllideb y dyfodol ar gyflog a chostau Tachwedd 2018

Mae'r ffigyrau ar gyfer 2019-20 a blynyddoedd diweddarach yn cynnwys cost y pwerau newydd a gynigiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

www.ombudsman.wales

communications@ombudsman-wales.org.uk

[@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)